OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 517

## Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

## RHAN 8

Dirymiadau a darpariaeth drosiannol

**Dirymiadau**

**28.** Mae'r offerynnau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) (Diwygio) (Cymru) 2002(**1**);

(b) Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) (Diwygio) (Cymru) 2003(**2**);

(c) Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2003(**3**);

(d) Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011(**4**);

(e) o ran Cymru—

(i) Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) 1995(**5**);

(ii) Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) (Diwygio) 1997(**6**).

**Darpariaeth drosiannol**

**29.**—(1) Mae casglu, cludo a gwaredu deunydd Categori 3 yn Erthygl 10(f) o Reoliad Rheolaeth yr UE (deunydd Categori 3) wedi ei awdurdodi ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2014, pan fo gofynion paragraff (2) wedi eu bodloni.

(2) Y gofynion yw—

(a) bod y deunydd yn bodloni Erthygl 36(3) o Reoliad Gweithredu'r UE a pharagraffau (a) i (c) o Bennod IV o Atodiad IV iddo; a

(b) bod y dull o waredu'r deunydd hwnnw, yn ychwanegol at y dull yn Erthygl 14 o Reoliad Rheolaeth yr UE (gwaredu a defnyddio deunydd Categori 3), yn gwaredu—

(i) mewn safle tirlenwi awdurdodedig heb brosesu ymlaen llaw; neu

(ii) pan fo Erthygl 21 o Reoliad Rheolaeth yr UE wedi ei bodloni, i safle bionwy neu safle compostio ar gyfer trawsffurfio yn unol ag awdurdodiad o dan baragraff 2 o Adran 2 o Bennod III o Atodiad V i Reoliad Gweithredu'r UE.

(**1**) O.S. 2002/1472 (Cy. 146).
(**2**) O.S. 2003/1849 (Cy. 199).
(**3**) O.S. 2003/2754 (Cy. 265).
(**4**) O.S. 2011/2377 (Cy. 250).
(**5**) O.S. 1995/614.
(**6**) O.S. 1997/2073.